Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA
SeneddIechyd@cynulliad.cymru

17/03/2017

Annwyl gyfeillion

**Bil Iechyd y Cyhoedd**

Ysgrifennaf wrth i chi graffu ar fanylder Bil Iechyd y Cyhoedd ac i ofyn i chi ystyried cynnig newidiadau i'r bil er mwyn sicrhau gwelliannau angenrheidiol sydd eu hangen i ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol Cymraeg yng Nghymru.

Mae Rhan 6 y Bil yn ymwneud â gwasanaethau fferyllol ac yn cynnwys mesurau i wella'r gwasanaethau hynny trwy osod gofynion ar sefydliadau perthnasol. Rwyf wedi dadlau'n gyson bod y bil yn cynnig cyfle arbennig i sicrhau gwelliannau i ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol yn Gymraeg. Dangosodd yr ymholiad statudol a gynhaliwyd gennyf yn 2014 i sefyllfa'r Gymraeg o fewn gofal sylfaenol, 'Fy Iaith, Fy Iechyd', yr angen clinigol clir am wasanaethau gofal sylfaenol yn Gymraeg. Yn ogystal amlygodd yr ymholiad pa mor anghyson yw'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal sylfaenol Cymraeg ar hyn o bryd, gan gynnwys gwasanaethau fferyllol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o fewn ei fframwaith strategol ar gyfer y Gymraeg ym maes iechyd a gofal, Mwy na Geiriau, i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau gofal sylfaenol Cymraeg. Mae cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n ymwneud â gwasanaethau fferyllol yn cynnig cyfle euraidd i gyflawni'r nod hwnnw.

Er hyn, nid yw'r Bil fel mae'n sefyll yn gwneud unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer y Gymraeg. Wrth ymateb i egwyddorion cyffredinol y Bil yn ystod Cyfnod 1 o waith craffu'r pwyllgor, tynnais sylw at yr angen i ystyried ymhellach berthnasedd y Gymraeg i rai o ddarpariaethau'r Bil. Cyfeiriwyd at hynny yn adroddiad y pwyllgor ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cabinet i hynny drwy nodi y bydd angen i fyrddau iechyd ystyried yr angen am wasanaethau Cymraeg wrth gynnal yr asesiadau o anghenion fferyllol fydd yn ofynnol dan y Bil. Deallaf mai asesiadau o'r angen lleol am wasanaethau fferyllol fydd y rheini. Nid yw'n glir i mi pam y dylai darpariaeth

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

gwasanaethau fferyllol Cymraeg fod yn ddibynnol ar ganlyniadau asesiadau o anghenion lleol. Nid yw darpariaeth gwasanaethau Cymraeg o fathau eraill yn ddibynnol ar brofi galw lleol, er enghraifft y rhai hynny y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu darparu yn unol â Safonau'r Gymraeg.


Credaf bod rhai gwasanaethau Cymraeg y mae'n rhesymol disgwyl i bob fferyllfa yng Nghymru eu darparu, er enghraifft arwyddion dwyieithog. Mae gwaith wedi ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf sy'n caniatáu i fferyllwyr gynhyrchu labeli a rhybuddion cyffuriau yn ddwyieithog. Mae'r Bil yn cynnig cyfle i sicrhau bod fferyllfeydd yng Nghymru yn cynnig gwasanaethau sylfaenol fel y rhai hyn yn ddwyieithog. Ni welaf pam fod angen cynnal asesiadau o anghenion fferyllol er mwyn sicrhau bod y fath wasanaethau ar gael yn Gymraeg fel yn Saesneg. Gellid cyflawni hyn drwy osod gofynion perthnasol ar holl fferyllwyr Cymru i ddarparu rhai gwasanaethau sylfaenol yn ddwyieithog, a hynny ar wyneb y Bil.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried sut i gynyddu defnydd y Gymraeg o fewn y sector gofal sylfaenol fel rhan o'i drafodaethau ynghylch Safonau i'w gwneud yn gymwys i'r sector iechyd a gofal yn unol â darpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Nid yw'n glir eto i ba raddau y bydd gofynion i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn cael eu gosod ar fferyllwyr na pha fath o ofynion y bwriedir eu gosod arnynt. O ystyried hynny, credaf na ddylid colli'r cyfle euraidd a gynigir gan Fil Iechyd y Cyhoedd i sicrhau rhai gwelliannau i'r ddarpariaeth gwasanaethau fferyllol Cymraeg, trwy sicrhau bod gwasanaethau sylfaenol megis y rhai y cyfeirir atynt uchod ar gael yn Gymraeg ymhob fferyllfa yng Nghymru.

Hyderaf y byddwch fel aelodau o'r pwyllgor a llefarwyr eich pleidiau ar iechyd a gofal yn cytuno na ddylid colli'r cyfle a gynigir gan y Bil i wella a chysoni'r ddarpariaeth o wasanaethau fferyllol Cymraeg yng Nghymru yn unol ag amcanion Mwy na Geiriau. Gofynnaf i chi ystyried cyflwyno gwelliannau perthnasol i'r Bil, yn unol â'ch pwerau i wneud hynny, er mwyn sicrhau gwell gwasanaethau ar gyfer siaradwyr Cymraeg yng Nghymru.

Mae copi o'r llythyr hwn wedi ei anfon at y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Yr eiddoch yn gywir,



**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Aelodau Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru